**EITEM AR YR AGENDA: 18**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Mehefin 2007**

## PENODIADAU STATUDOL A CHYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH

**Adroddiad gan Simon Smith,**
**Prif Swyddog Tân**

### Diben yr adroddiad

**1.** I geisio caniatâd yr aelodau i gomisiynu adolygiad o benodiadau statudol y trysorydd a swyddog monitro a chytundebau lefel gwasanaeth eraill sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2008.

### Cefndir

**2.** Mae'r Awdurdod wedi gwneud y penodiadau statudol canlynol ac mae'n trefnu fod rhai gwasanaethau penodol yn cael eu darparu dan gytundebau lefel gwasanaeth gan gynghorau cyfansoddol:

- Trysorydd cronfa'r gwasanaeth tân cyfunol a swyddog â chyfrifoldeb am weinyddu materion ariannol yr awdurdod: Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (erthygl 7 o'r cynllun cyfuno; adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972; Rhan VIII, Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1988) a pharatoi cyfrifon a chyngor ariannol (rheolaeth ariannol/cyfrifyddiaeth; archwilio mewnol; cyflogres; taliadau credydwyr a chasglu incwm – dyledwyr ac arian parod): Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

**Cefndir** *(parhad)*

- Swyddog Monitro a chyngor cyfansoddiadol cyffredinol: Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych (adran 5, Deddf Llywodraeth Leol a Thai, 1989)

- cyngor cyfreithiol:  Cyngor Sir Ddinbych

- darparu cyngor; taliadau; cynnal a chadw; cydymffurfio â rheolau Cyllid y Wlad ac ati ar Gynllun Pensiwn yr Ymladdwyr Tân:  Cyngor Sir y Fflint.

**3.** Mae'r penodiadau a'r trefniadau presennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2008.

**Cyngor**

**4.** Priodol yw i adolygu'r penodiadau a'r cytundebau lefel gwasanaeth presennol.  Dylid ystyried gwahodd y cynghorau cyfansoddol i wneud datganiadau o ddiddordeb i ymgymryd â'r dyletswyddau hyn yn ogystal â'r Awdurdod i wneud trefniadau eraill (naill ai ei hun neu gyda darparwyr gwasanaeth eraill).  Dylai'r Awdurdod ddod i benderfyniad terfynol ar y trefniadau sydd i ddod i rym o Ebrill 2008 ymlaen yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2007, er mwyn caniatáu newid drosodd yn llyfn petai unrhyw newidiadau.

**5.** Dylid gwahodd y Panel Gweithredol i gynnal adolygiad a gwneud argymhellion.

**Argymhellion**

6. **6.1** Bod yr Awdurdod yn gofyn i'r Panel Gweithredol i gynnal adolygiad o'r penodiadau statudol a'r cytundebau lefel gwasanaeth; a
**6.2** chyflwyno argymhellion i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2007 ar y penodiadau statudol a'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau ariannol, cyfreithiol a phensiynau i ddod i rym o Ebrill 2008 ymlaen, gan gynnwys amodau a hyd y penodiadau a'r trefniadau hynny.